

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams ar **09 Mehefin 2025** am 6.30 pm.

PRESENNOL:- Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Medwyn Hughes (Cadeirydd), Cyng. Delyth Russell (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamat Fada, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Jackie Spence, Cyng. Lisa Toth a'r Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol), Lisa Goodier (Pennaeth Partneriaethau a Thrawsnewid) a Lowri Gwyn (Cyfieithydd).

12/25 YMDDIHEURIADAU: Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Simon Hibbs, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Michael Pattison, a'r Cyng. Gareth Roberts.

13/25 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim

14/25 DERBYN ADRODDIAD AR HWB CYMUNEDOL BANGOR

Rhoddwyd cyflwyniad i'r cyngor gan Lisa Goodier, sydd newydd ei phenodi'n rheolwr HWB Dinas Bangor. Tynnodd y cyflwyniad sylw at lwyddiant ysgubol HWB Dinas Bangor o fewn ei 9 wythnos gyntaf o fodolaeth. Roedd rhai o'r prif gyflawniadau fel a ganlyn:-

- i) Mae 580 o drigolion wedi ymweld â'r HWB yn ceisio cymorth gydag ystod amrywiol o broblemau.
- ii) O fewn y 9 wythnos, mae 5 gwirfoddolwr wedi rhoi o'u hamser yn hael yn yr HWB.
- iii) Derbyniwyd dros £300 mewn rhoddion gan ymwelwyr. Mae hwn wedi bod yn incwm angenrheidiol iawn i gefnogi costau rhedeg dyddiol yr HWB.

Yn y cyflwyniad cafwyd amserlen digwyddiadau Mehefin 2025 yn yr HWB, oedd yn atgyfnerthu ei lwyddiant ymhellach, gan fod y cyfleuster bellach yn gweithredu bron yn llawn.

Yna aeth y Cyngor ymlaen i ddiolch i Lisa am ei holl waith da a'r holl bethau y mae wedi gallu eu rhoi ar waith mewn cyfnod mor fyr.

15/25 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 14 EBRILL 2025

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 14eg o Ebrill 2025 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

1 6/25 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Roedd yr adroddiad wedi cael ei ddosbarthu cyn y cyfarfod.

Tynnodd Cyfarwyddwr y Ddinas sylw at sawl pwynt o'i adroddiad gan gynnwys:-

- i) Roedd sedd wag wedi agor yn Ward Menai. Roedd yr hysbysiadau Cyfethol wedi'u cyhoeddi gyda dyddiad cau i ymatebwyr gysylltu â'r swyddfa erbyn 21 Mehefin.
- ii) Cafodd trosglwyddo asedau Gerddi Garth a Thoiledau Cyhoeddus Garth ei ohirio o 1 Mai tan 1 Mehefin, ond mae bellach wedi'i drosglwyddo'n llwyddiannus i Gyngor y Ddinas.
- iii) Mae cynnig gan Gyngor Gwynedd i adeiladu ar y cydweithio llwyddiannus a welwyd yn ystod cynllunio Bangor 1500 i baratoi cais i fod yn Ddinas Diwylliant. Mae'n gadarnhaol bod Gwynedd wedi sylwi ar yr undod a'r cydweithio cynyddol rhwng sefydliadau ffurfiol, mudiadau, grwpiau cymunedol a chlybiau chwaraeon y Ddinas. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf i drafod cais o'r fath.

PENDERFYNWYD: Derbyn yr adroddiad.

17/25 DDERBYN DIWEDDARIAD AR Y PARATOADAU GOGYFER YR ŴYL HAF

Derbyniwyd diweddariad ar y paratoadau ar gyfer Gŵyl Haf 2025 gan y Cynghorydd Eirian Williams Roberts ar ran y pwyllgor trefnu. Eglurwyd mai dyma fyddai trydedd flwyddyn y digwyddiad a bod cyfarfod llwyddiannus wedi bod rhwng y Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch (SAG) a swyddogion Cyngor Gwynedd a chynrychiolwyr y gwasanaethau brys y dydd Gwener cynt. Ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach gan y grŵp; roeddent yn hapus gyda threfniadau gweithredol yr ŵyl.

Llongyfarchodd y Cyngor y pwyllgor trefnu am eu holl ymdrechion a'u gwaith hyd yma wrth drefnu'r hyn a fydd yn ddigwyddiad llwyddiannus arall i'r Ddinas.

18/25 CYMERADWYO'R DATGANIAD CYFRIFON A'R FFURFLEN FLYNYDDOL

Roedd y dogfennau hyn wedi cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Dinesig na ellid gwneud penderfyniad yn y cyfarfod hwn oherwydd bod y dogfennau anghywir wedi'u hanfon allan gyda'r pecyn cyfarfod gwreiddiol. Ni fu digon o amser i Gynghorwyr adolygu'r Datganiad Cyfrifon a'r Ffurflen Flynyddol gywir.

PENDERFYNWYD: Gohirio tan gyfarfod nesaf y cyngor.

19/25 CYMERADWYO DOGFENNAU'R CYNGOR

Roedd y dogfennau hyn wedi cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod.

Trafodwyd y dogfennau a amlinellir isod :-

- i) Strategaeth Buddsoddi
- ii) Asesiad Risg Ariannol
- iii) Rheolau Sefydlog
- iv) Rheoliadau Ariannol

PENDERFYNWYD: Ar ôl trafodaeth, penderfynwyd cymeradwyo pob un o'r dogfennau a amlinellwyd uchod.

20/25 CYMERADWYO STRWYTHUR PWYLLGORAU'R CYNGOR

Eglurwyd y bydd strwythur pwyllgorau Cyngor y Ddinas yn cael ei leihau yn ystod blwyddyn ddinesig 2025 – 2026 gyda llai o Gynghorwyr arnynt.

PENDERFYNWYD: Ar ôl trafodaeth, penderfynwyd, gan fod absenoldebau yn y cyfarfod hwn y byddai'r Cyfarwyddwr Dinesig yn anfon e-bost at bob Cynghorydd i ofyn am eu cytundeb ffurfiol os oeddent yn dymuno cael eu penodi i bwyllgorau Cyngor y Ddinas ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025 – 2026.

21/25 PENODI CYNRYCHIOLWYR I GYRFF ALLANOL

PENDERFYNWYD: Ar ôl trafodaeth, penderfynwyd, gan fod absenoldebau yn y cyfarfod hwn y byddai Cyfarwyddwr y Ddinas yn anfon e-bost at bob Cynghorydd i ofyn am eu cytundeb ffurfiol os oeddent yn dymuno cael eu penodi i gynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025 – 2026.

22/25 TRAFOD TRWYDDEDAU SEDDAU AWYR AGORED YNG NGHANOL Y DDINAS

PENDERFYNWYD: Oherwydd y penderfyniad diweddar gan AGB Bangor i dalu am y trwyddedau seddi awyr agored ar gyfer Canol y Ddinas ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025 – 2026 mae'r eitem hon bellach wedi'i gohirio tan y flwyddyn ariannol nesaf.

23/25 TRAFOD CAIS CYNLLUNIO AR GYFER 48 O ANNEDDAU

PENDERFYNWYD: Penderfynwyd ar hyn o bryd, gan mai dim ond cais cyn-gynllunio oedd hwn, y byddai hyn yn cael ei ohirio nes bod cais llawn yn cael ei wneud a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn am benderfyniad terfynol.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50pm

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR